Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gymraeg Trelyn
# Commercial Street
# Pengam
# Coed-Duon
# NP12 3ST

# Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2018

# gan

# Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol Gymraeg Trelyn

Lleolir Ysgol Gymraeg Trelyn ym Mhengam, yng nghymoedd de-ddwyrain Cymru. Cymraeg yw prif gyfrwng gwaith a bywyd yr ysgol. Mae 199 disgybl rhwng 3 ac 11 oed ar y gofrestr, yn cynnwys 30 oed meithrin rhan-amser. Mae'r disgyblion wedi eu rhannu rhwng 4 dosbarth oed cymysg a 3 dosbarth un oed.

Tua 12% o'r disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim. Mae hyn yn is na'r ganran genedlaethol, sef 21%. Lleiafrif o'r disgyblion sy'n siarad Cymraeg gartref ac ychydig iawn sydd o gefndir lleiafrifol ethnig. Mae'r ysgol wedi adnabod 17% o'i disgyblion fel rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol ac ychydig iawn sydd â datganiad o anghenion addysgol arbennig.

Penodwyd y pennaeth i'w swydd ym mis Medi 2011 ac arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym mis Mawrth 2013.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iath=cym

## Crynodeb

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cryf o'u mannau cychwyn unigol. Mae gan y rhan fwyaf ohonynt agweddau cadarnhaol at ddysgu. Maent yn cydweithio'n dda, yn fodlon ymgymryd â chyfrifoldebau ac yn falch o'u hysgol.

At ei gilydd, mae ansawdd yr addysgu yn dda. Yn gyffredinol, mae'r athrawon yn cyflwyno gwersi bywiog ac yn defnyddio arddulliau addysgu effeithiol sy'n ennyn diddordeb y disgyblion yn llwyddiannus.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer lles disgyblion yn gryfder yn yr ysgol. Rhoddir cymorth o ansawdd da i ddisgyblion ag anghenion dysgu penodol ac emosiynol.

Mae arweinwyr yr ysgol yn gydwybodol ac mae ganddynt weledigaeth glir, sy'n creu ethos Cymreig, gofalgar a chynhwysol llwyddiannus. Mae'r staff yn dîm ymroddgar a gweithgar ac mae'r llywodraethwyr yn eu cynorthwyo'n dda. Mae holl gymuned yr ysgol yn ymrwymo i'r pwyslais parhaol ar annog 'Cymreictod, ymdrech a pharch'.

| **Maes arolygu** | **Barn** |
|---|---|
| **Safonau** | **Da** |
| **Lles ac agweddau at ddysgu** | **Da** |
| **Addysgu a phrofiadau dysgu** | **Da** |
| **Gofal, cymorth ac arweiniad** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Argymhellion

A1 Sicrhau bod disgyblion mwy abl yn cael eu herio i gyflawni cystal ag y gallent

A2 Sicrhau bod gweithdrefnau hunanarfarnu yn arfarnol, yn gynhwysfawr ac yn arwain at welliannau penodol

A3 Darparu digon o gyfleoedd i ddisgyblion weithio'n fwy annibynnol, yn cynnwys yn yr ardal tu allan

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

**Safonau: Da**

Mae llawer o ddisgyblion yn dechrau'r ysgol gyda medrau llythrennedd, rhifedd a medrau personol a chymdeithasol sy'n debyg i'r rheiny a ddisgwylir ar gyfer eu hoedran. Dros gyfnod, mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd cryf wrth iddynt symud trwy'r ysgol ac maent yn cyflawni yn unol â'r lefel a ddisgwylir erbyn diwedd cyfnod allweddol 2. Mae rhan fwyaf y disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd da tuag at eu targedau.

Ar draws yr ysgol, mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwrando'n dda ar oedolion ac ar ddisgyblion eraill, ac maent yn dilyn cyfarwyddiadau'n ofalus. Maent yn mynegi eu syniadau'n glir ac yn mwynhau siarad am eu gwaith gydag ymwelwyr. Mae rhan fwyaf y disgyblion y cyfnod sylfaen yn sgwrsio'n bwrpasol gyda'i gilydd, er enghraifft yn ystod gweithgaredd chwarae rôl wrth iddynt ailadrodd stori'r saith mingafr a'r blaidd cas. Mae rhan fwyaf y disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn sgwrsio'n rhugl yn y Gymraeg. Er enghraifft, mae'r disgyblion hŷn yn rhannu eu syniadau ac yn datgan eu barn yn hyderus mewn amrediad o gyd-destunau. Mae rhan fwyaf y disgyblion ar draws yr ysgol yn ymfalchïo yn yr iaith Gymraeg ac yn ei defnyddio'n naturiol wrth sgwrsio â'i gilydd.

Yn y cyfnod sylfaen, mae'r rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu medrau darllen. Dangosant amgyffrediad cadarn o seiniau cychwynnol o oedran cynnar, ac maent yn cymhwyso'r wybodaeth ffonig hon yn dda wrth ddarllen geiriau anghyfarwydd. Mae llawer o ddisgyblion hŷn y cyfnod sylfaen yn darllen yn rhugl gyda mynegiant clir. Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion hŷn yn trafod awduron fel T. Llew Jones a Eurgain Haf yn y Gymraeg a David Walliams yn y Saesneg. Maent hefyd yn sganio am wybodaeth yn fedrus.

Mae'r disgyblion yn defnyddio medrau ysgrifennu yn effeithiol mewn pynciau eraill. Yn gynnar iawn, mae llawer o ddisgyblion yn dechrau ffurfio llythrennau'n gywir ac yn ysgrifennu ystod gynyddol o frawddegau yn gymwys, er enghraifft wrth ddisgrifio aelod o'u teulu. Erbyn Blwyddyn 2, mae'r rhan fwyaf yn ysgrifennu'n hyderus ac yn amrywio brawddegau'n synhwyrol i greu effaith yn eu gwaith. Maent yn defnyddio atalnod llawn a phrif lythyren yn gywir mewn chwedlau fel Branwen. Ar draws cyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf yn datblygu eu gwaith yn ddiddorol ar draws ystod o ffurfiau ysgrifennu. Mae llawer o ddisgyblion ym Mlwyddyn 4 yn ysgrifennu yn effeithiol wrth ailadrodd stori o un o chwedlau'r Mabinogi. Ym Mlwyddyn 6, mae'r mwyafrif yn defnyddio paragraffau i gyflwyno eu gwaith yn drefnus, ac yn aml yn defnyddio geiriau diddorol i greu effaith. Er enghraifft, yn eu stori greadigol am y storm, mae llawer yn drafftio a mireinio eu gwaith yn dda i wella'i ansawdd.

Mewn mathemateg, mae rhan fwyaf y disgyblion yn cyflawni a chymhwyso eu medrau rhifedd yn dda ar draws y meysydd dysgu. Yn y cyfnod sylfaen, mae llawer o ddisgyblion yn datblygu eu medrau cyfrifo yn briodol mewn gwersi mathemateg ac wrth ymwneud â gweithgareddau ymarferol yn yr ardaloedd dysgu. Er enghraifft, mewn arolwg traffig, defnyddiant graffiau bloc a phictogramau'n gymwys wrth ddefnyddio rhaglen gyfrifiadur. Yng nghyfnod allweddol 2, mae safonau rhan fwyaf y disgyblion mewn gwersi mathemateg yn dda. Mae llawer yn datrys problemau yn

llwyddiannus wrth wneud ymchwiliadau sy'n cydfynd â'i thema. Maent yn defnyddio medrau pen gydag adnabyddiaeth dda o rifedd mewn gwahanol gyd-destunau. Mae rhan fwyaf y disgyblion ar draws yr ysgol yn cymhwyso eu medrau rhifedd yn rheolaidd mewn meysydd eraill o'r cwricwlwm. Er enghraifft, ym Mlwyddyn 2, maent yn defnyddio'u medrau amser i goginio bisgedi ac, ym Mlwyddyn 4, maent yn edrych ar adeiladau yn y gymuned ac yn ei gofnodi mewn siart cylch. Ym Mlwyddyn 6, maent yn creu graff llinell mewn arbrawf gwyddonol i ddangos pellter car yn teithio i lawr llethr gwahanol. Enghraifft dda arall gan y disgyblion hŷn yw'r modd y maent yn datrus cyflog a gwariant dau filwr o Oes y Stiwardiad.

Mae gan ran fwyaf y disgyblion fedrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) da. Yn y cyfnod sylfaen, mae mwyafrif o ddisgyblion yn defnyddio rhaglenni prosesu geiriau, er enghraifft er mwyn anfon e-byst i gymeriad o lyfr Hugain fach goch. Maent yn defnyddio rhaglenni peintio syml i greu lluniau ac ychwanegu testun, newid lliwiau a maint ffont yn hyderus. Mae llawer o ddisgyblion hŷn yn defnyddio offer yn dda wrth recordio perfformiad yn yr ardal tu allan ar lechen electronig. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn deall e-ddiogelwch yn dda. Maent yn gallu chwilio am wybodaeth ar-lein yn gymwys, ac yn defnyddio ystod o raglenni'n hyderus i gyflwyno eu canfyddiadau. Mae llawer o ddisgyblion hŷn yn gallu defnyddio cronfa ddata yn ddeallus.

**Lles ac agweddau at ddysgu: Da**

Mae bron pob un o'r disgyblion yn mwynhau bywyd a gwaith yr ysgol. Maent yn teimlo'n ddiogel, ac maent yn ofalgar o'i gilydd gan ddangos parch tuag at eraill. Mae gan bron pob disgybl wybodaeth glir am drefniadau diogelwch y wê.

Mae'r disgyblion yn gwrtais, yn gwrando'n ofalus, ac yn trafod a mynegi barn yn aeddfed gydag ymwelwyr. Mae bron pob disgybl yn ymddwyn yn dda.

Mae bron pob disgybl yn deall pwysigrwydd bwyta ac yfed yn iach ac mae ganddynt ymwybyddiaeth dda o'r effaith mae hyn yn ei chael ar y corff. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn cymryd rhan mewn gweithgareddau allgyrsiol o fewn yr ysgol a thu hwnt fel 'milltir y dydd', a chlybiau chwaraeon a thechnoleg.

Mae gan ran fwyaf y disgyblion ddealltwriaeth gadarn o'u rolau arwain. Mae aelodau'r cyngor ysgol, y cyngor lles ac eco a'r 'ditectifs dysgu' yn frwdfrydig iawn. O ganlyniad, maent yn dylanwadu'n fuddiol ar fywyd yr ysgol. Mae'r disgyblion yn cydweithio'n effeithiol i godi arian ar gyfer nifer o elusennau. Er enghraifft, trefnwyd bore coffi gan ddisgyblion Blwyddyn 6 i godi arian at elusen Macmillan. Caiff hyn effaith gadarnhaol ar eu hymwybyddiaeth o anghenion eraill o fewn eu cymuned a'r byd ehangach.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn falch iawn o'u hysgol a'u cymuned leol. Maent yn cyfrannu'n helaeth at ystod eang o ddigwyddiadau, cyngherddau a gweithgareddau cymdeithasol, er enghraifft dawnsio gwerin yng nghastell Caerffili, gwasanaethau yn y capel lleol, a hysbysu'r siopau lleol am sut i ddefnyddio'r Gymraeg yn eu busnesau o ddydd i ddydd. Mae disgyblion Blwyddyn 6 yn cael cyfle i ymweld â chapel lleol yn wythnosol i gymdeithasu ag oedolion ag anghenion dysgu ychwanegol a thrigolion yr ardal. Pwrpas yr ymweliadau yw cael effaith gadarnhaol ar eu hymwybyddiaeth o anghenion eraill o fewn eu cymuned a'r byd ehangach. Mae rhan fwyaf y disgyblion

yn gweithio’n hyderus ac effeithiol mewn parau, yn unigol ac mewn grwpiau ac yn gwerthfawrogi barn disgyblion a phobl eraill. Fodd bynnag, nid yw disgyblion bob amser yn gweithio’n annibynnol nac yn gwneud penderfyniadau am sut, a beth, maent yn ei ddysgu’n ddigon rheolaidd.

**Addysgu a phrofiadau dysgu: Da**

Yn gyffredinol, mae ansawdd yr addysgu yn gadarn dda. Mae’r athrawon yn cyflwyno gwersi bywiog ac yn defnyddio arddulliau addysgu effeithiol sy’n ennyn diddordeb y disgyblion i gyd. Mae ganddynt wybodaeth bynciol dda a chyflwynir amcanion dysgu clir i’r disgyblion sydd yn sicrhau pwrpas i’r dysgu. Mae athrawon a chynorthwywyr dysgu yn adnabod eu disgyblion yn dda. Mae enghreifftiau cryf o’r athrawon yn teilwra gweithgareddau dosbarth i fodloni anghenion disgyblion o bob gallu mewn gwersi mathemateg a iaith. Fodd bynnag, mewn gwersi ar draws y cwricwlwm, nid yw athrawon bob amser yn cynnig digon o her i’r disgyblion mwyaf abl er mwyn iddynt gyflawni hyd eithaf eu gallu.

Mae staff yr ysgol yn gweithio gyda’i gilydd yn effeithiol, ac mae’r berthynas dda rhwng oedolion a disgyblion yn cael effaith gadarnhaol ar safonau a lles disgyblion. Mae athrawon y cyfnod sylfaen yn darparu amgylchedd dysgu cynhyrchiol ac yn cynllunio profiadau dysgu’n greadigol i fodloni anghenion a diddordebau’r disgyblion. Mae’r athrawon yn sicrhau cyflymder addas i’w gwersi, yn holi disgyblion yn dda ac yn eu hannog i ddefnyddio’u medrau yn gyson. Maent yn fodelau iaith da ac yn annog y disgyblion i ddefnyddio'r Gymraeg yn ystod gweithgareddau ffurfiol ac anffurfiol. O ganlyniad, mae gan lawer o ddisgyblion hŷn fedrau trawsieithu effeithiol ac maent yn datblygu’n ddysgwyr dwyieithog hyderus.

Mae rhan fwyaf o’r athrawon yn rhoi adborth llafar ac ysgrifenedig defnyddiol i ddisgyblion. Mae defnydd da o strategaethau asesu ar gyfer dysgu yn y rhan fwyaf o ddosbarthiadau yn datblygu gallu’r disgyblion i werthuso eu gwaith mewn modd pwrpasol. Gan amlaf, mae sylwadau athrawon yn tynnu sylw disgyblion at gryfderau’r gwaith yn ogystal â sut i’w wella. Mae gweithdrefnau addas yn eu lle er mwyn i ddisgyblion arfarnu eu gwaith eu hunain.

Mae’r ysgol yn darparu ystod amrywiol o brofiadau dysgu gwerthfawr sy’n bodloni anghenion rhan fwyaf y disgyblion yn llwyddiannus. Cyfoethogir y profiadau dysgu trwy wahodd ymwelwyr i’r ysgol a thrwy ymweliadau â lleoedd gwahanol, fel Castell Henllys a Llancaiach Fawr. Mae athrawon yn cynnig cyfleoedd cyson i ddisgyblion gymhwyso eu medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh yn effeithiol ar draws y meysydd dysgu. Mae gan staff ymwybyddiaeth gadarn o egwyddorion y cyfnod sylfaen ac mae amrediad cyfoethog o weithgareddau sydd yn sbarduno’r disgyblion, er enghraifft y cyfleoedd i ymweld â’r amgueddfa genedlaethol yng Nghaerdydd i glywed synau dinosoriad a gwaith ar yr adeiladau gwahanol yn y pentrefi lleol. Fodd bynnag, nid yw’r athrawon bob amser yn rhoi digon o gyfleoedd i ddisgyblion weithio’n annibynnol yn yr ardaloedd dysgu.

Mae cynlluniau cyfnod allweddol 2 yn nodi’n glir ddatblygiad a pharhad ym medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh y disgyblion ar draws y cwricwlwm. Fodd bynnag, ar adegau, mae’r defnydd sylweddol o daflenni gwaith yn cyfyngu ar allu’r disgyblion i ymateb yn annibynnol ac i ymestun eu hymatebion.

Mae'r cynllunio ar gyfer datblygu'r Gymraeg a diwylliant Cymru yn gryf iawn. Nodwedd gadarn o'r ddarpariaeth yw'r cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddysgu am eu hardal leol a diwylliant Cymru. Mae'r cyfle hefyd i holl ddisgyblion gymryd rhan mewn eisteddfodau a gwrando ar gerddoriaeth gyfoes Gymreig. Mae hyn yn hyrwyddo ymwybyddiaeth disgyblion o'u hetifeddiaeth a'u diwylliant yn llwyddiannus.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned gyfeillgar a theuluol sy'n hybu amrywiaeth, gwrth-hiliaeth a thegwch yn llwyddiannus. Mae'r pwyslais cryf ar gynnig cyfle cyfartal i bob disgybl yn rhan bwysig o fywyd a gwaith yr ysgol. Mae'r staff yn darparu cyfleoedd buddiol i ddisgyblion dderbyn cyfrifoldebau am agweddau o fywyd yr ysgol ac i ymuno â gwahanol glybiau. Enghraifft dda o hyn yw'r arweinwyr digidol, y clwb cŵl a chlwb ieithoedd modern.

Mae ansawdd y ddarpariaeth ar gyfer dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol yn drwyadl ac effeithiol. Mae'r ysgol yn darparu cefnogaeth werthfawr i unigolion a grwpiau o ddisgyblion yn unol â'u hanghenion. Mae'r cynlluniau dysgu unigol ar gyfer y disgyblion sydd ag anghenion ychwanegol yn bwrpasol a defnyddiol. Mae gan yr ysgol bartneriaeth lwyddiannus gydag asiantaethau eraill sy'n darparu cefnogaeth arbenigol ac arweiniad i staff. Mae gan yr ysgol drefniadau effeithiol sy'n llwyddo i gefnogi anghenion emosiynol a chymdeithasol y disgyblion yn dda, er enghraifft drwy lais y disgybl ac ymyraethau lles. Mae hyn yn cyfrannu'n llwyddiannus at greu'r ethos gofalgar a theuluol sydd o fewn yr ysgol.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau asesu pwrpasol ar gyfer olrhain cynnydd disgyblion ac mae'r staff yn eu defnyddio i'w cynorthwyo i ddarparu gweithgareddau dysgu ar eu cyfer. Mae'r ysgol wedi dechrau datblygu dull newydd er mwyn olrhain cynnydd disgyblion a monitro grwpiau penodol o ddysgwyr er mwyn sicrhau effaith well ar safonau.

Mae perthynas waith werthfawr a llwyddiannus yn bodoli rhwng yr ysgol a'r rhieni. Mae cyfleoedd priodol i'r rhieni ddatblygu eu gallu i gefnogi eu plant, er enghraifft wrth dderbyn cyfleoedd i fynychu sesiynau rhifedd a llythrennedd yn yr ysgol. Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach ymhlith y disgyblion, fel taith gerdded Trelyn a gweithgareddau wythnos iach.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer addysg bersonol a chymdeithasol yn gryf ac, o ganlyniad, mae rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu dealltwriaeth gadarn o ddiogelwch, iechyd personol, lles meddyliol, parch a phwysigrwydd ystyried safbwyntiau ei gilydd. Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd cynhwysfawr i ddisgyblion fynegi'u barn a'u teimladau mewn amryw o ffyrdd o amgylch yr ysgol, fel bwrdd llais y disgybl ym mhob dosbarth.

Darperir ystod dda o brofiadau allgyrsiol i ddisgyblion o bob oedran. Mae'r rhain yn cynnwys ymweliadau addysgol oddi ar y safle fel ymweld â Sain Ffagan, croesawu ymwelwyr i'r ysgol fel artist lleol, gweithgareddau diwylliannol, a chwaraeon. Mae cyfleoedd da i ddisgyblion berfformio yn y gymuned ac ar lwyfannau eisteddfodau a chyngherddau. Mae hyn yn datblygu hunanhyder ymysg y rhan fwyaf o ddisgyblion yn dda ac yn hyrwyddo cydweithio effeithiol.

Mae’r ysgol yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol yn llwyddiannus iawn. Enghraifft arbennig o hyn yw ymweliad y mynach i’r ysgol a chydweithio ag ef mewn sesiynau meddwlgarwch a rhannu’r weithgaredd gydag eraill drwy ddefnyddio rhaglen gyfrifiadurol. Mae’r cyfleoedd i fynd ar deithiau preswyl, er enghraifft i Gaerdydd, Glan-llyn a Llangrannog, yn cyfrannu’n gadarnhaol at ddatblygiad eu medrau Cymraeg. Mae’r ysgol yn darparu cyfleoedd buddiol i godi ymwybyddiaeth disgyblion o fod yn ddinasyddion gweithredol, er enghraifft drwy waith a chefnogaeth y grwpiau arweinyddol disgyblion fel y ffrindiau ffyddlon, y cyngor lles ac eco a’r cyngor ysgol.

Mae trefniadau’r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni’r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da**

Mae’r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth gadarn ac effeithiol iawn sy’n seiliedig ar safonau da a lles disgyblion. Mae hi’n cyfleu’r weledigaeth yn glir er mwyn creu ethos Cymreig, gofalgar a chynhwysol llwyddiannus. Mae aelodau’r uwch dîm rheoli yn gweithredu eu cyfrifoldebau cwricwlaidd yn llwyddiannus. Fodd bynnag, nid yw rolau arweiniol aelodau’r uwch dîm rheoli wedi eu datblygu’n llawn hyd yma.

Mae’r athrawon a’r staff ategol yn ymwybodol o’u rolau a’u cyfrifoldebau ac maent yn eu cyflawni’n ddiwyd. Mae arweinwyr yn canolbwyntio ymdrechion y staff ar flaenoriaethau strategol yr ysgol yn llwyddiannus, er enghraifft ynglŷn â datblygu lles disgyblion a chodi safonau’r Gymraeg. Mae holl gymuned yr ysgol yn ymrwymo i’r pwyslais parhaol ar annog ‘Cymreictod, ymdrech a pharch’.

Mae arweinwyr yn dilyn amserlen fonitro ac yn ymgymryd a gweithgareddau sy’n eu helpu i arfarnu ansawdd gwaith yr ysgol. Mae’r rhain yn cynnwys craffu ar waith disgyblion, arsylwi gwersi a monitro cynllunio athrawon. O ganlyniad, mae ganddynt ddarlun clir o ba mor dda y mae’r ysgol yn bodloni anghenion ei disgyblion.

Mae adroddiad hunanarfarnu diweddaraf yr ysgol yn ddogfen briodol sy'n darparu sylwadau ar ystod o agweddau. Fodd bynnag, nid yw’n ddigon arfarnol mewn mannau nac yn nodi’r elfennau sydd angen eu gwella yn ddigon clir. Mae'r cynllun datblygu ysgol yn ddogfen weithredol sy’n nodi’r camau i’w cymryd er mwyn codi safonau. Mae trefniadau da yr arweinwyr a’r llywodraethwyr yn sicrhau eu bod yn monitro prif flaenoriaethau’r cynllun datblygu yn barhaus.

Mae gweithdrefnau rheoli perfformiad ar gyfer athrawon yn cefnogi gweithgareddau gwella’r ysgol yn briodol ac yn cynnig cyfleoedd i hyrwyddo datblygiad proffesiynol staff trwy raglen o hyfforddiant perthnasol. Mae’r ysgol yn ymateb yn llwyddiannus i flaenoriaethau cenedlaethol a lleol. Er enghraifft, mae’n cyflwyno strategaethau effeithiol ar gyfer datblygu'r Fframwaith Cymhwysedd Digidol a’r Siarter Iaith. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar safonau disgyblion.

Mae arweinwyr a staff yn gweithio'n effeithiol gydag ysgolion eraill o fewn y clwstwr o ysgolion lleol. Er enghraifft, mae'r gwaith gyda'r ysgol uwchradd i ddatblygu mathemateg ar gyfer disgyblion hŷn mwy galluog cyfnod allweddol 2 wedi cael effaith gadarnhaol ar fedrau rhifedd disgyblion a’u gallu i gymhwyso’r medrau yn llwyddiannus ar draws y cwricwlwm. Yn ogystal, mae’r trefniadau pontio gyda’r ysgol uwchradd yn effeithiol ac yn sicrhau bod y disgyblion yn trosglwyddo’n hyderus i’r cyfnod nesaf yn eu haddysg.

Mae gan aelodau'r corff llywodraethol wybodaeth drylwyr am berfformiad yr ysgol sy'n eu galluogi i gefnogi’r ysgol fel ffrindiau beirniadol yn llwyddiannus. Mae is-bwyllgorau yn gwneud cyfraniad da i gyfeiriad strategol yr ysgol trwy gynnal gweithgareddau rheolaidd. Er enghraifft, wrth fynychu teithiau dysgu yn y dosbarthiadau, mae siarad â disgyblion yn helpu i roi trosolwg clir i lywodraethwyr o waith yr ysgol.

Mae gan yr ysgol lefelau staffio da. Mae staff cymorth yn rhan annatod o’r tîm, ac maent yn cyfrannu’n llwyddiannus at safonau, lles a medrau cymdeithasol disgyblion. Mae arweinwyr yn defnyddio arbenigedd athrawon unigol yn dda yn cyfnod allweddol 2, i ddarparu addysgu arbenigol ar gyfer disgyblion mewn addysg gorfforol, cerddoriaeth a TGCh. Gwna’r athrawon ddefnydd pwrpasol o’u hamser cynllunio, paratoi ac asesu a chaiff y trefniadau eu rheoli’n dda.

Mae arweinwyr yn dyrannu’r gyllideb yn briodol i fynd i’r afael â blaenoriaethau’r ysgol ar gyfer gwella, er enghraifft prynu adnoddau TGCh ychwanegol a datblygu’r ardal allanol. Mae’r grant datblygu disgyblion yn cael ei ddefnyddio’n effeithiol i godi safonau llythrennedd a sicrhau lles grwpiau penodol o ddisgyblion. Caiff hyn effaith gadarnhaol ar hyder y disgyblion hyn ac mae eu medrau sylfaenol mewn llythrennedd a rhifedd yn datblygu’n llwyddiannus iawn. Mae llywodraethwyr yn monitro gwariant yn rheolaidd i sicrhau bod arweinwyr yn defnyddio cyllid yn effeithiol i godi safonau a gwella’r ddarpariaeth.

Mae gan yr ysgol ystod o adnoddau o safon uchel. Mae’r amgylchedd yn ysgogol ac mae’r arddangosfeydd yn dathlu cyflawniadau disgyblion yn llwyddiannus. Mae athrawon wedi datblygu ardal allanol y cyfnod sylfaen yn greadigol iawn ac mae’n cynnwys offer diddorol sy’n ehangu eu profiadau dysgu yn fuddiol. Caiff yr adeilad ei gynnal a’i gadw’n dda.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau |
| **Digonol ac angen gwelliant** | Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella |
| **Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2018: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 17/05/2018